



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Ymchwiliad gorfodi safonau: Adroddiad a hysbysiad penderfynu

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag adran 73 ac adran 74 Mesur y
Gymraeg (Cymru) 2011

Cynhaliwyd yr ymchwiliad i amheuaeth o fethiant i gydymffurfio â safonau a
bennir gan Weinidogion Cymru yn unol ag adran 71 ac Atodlen 10 Mesur y
Gymraeg (Cymru) 2011

Gweinidogion Cymru

Rhif achos: CS063

Dyddiad: 04/10/2022



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Cefndir

Prif nod Comisiynydd y Gymraeg, sefydliad annibynnol a grëwyd gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Gwneir hyn trwy ddwyn sylw at y ffaith fod statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru, trwy osod safonau ar sefydliadau, a thrwy reoleiddio cydymffurfiaeth â Mesur y Gymraeg. Bydd hyn, yn ei dro, yn arwain at sefydlu hawliau i siaradwyr Cymraeg.

Bydd dwy egwyddor yn sail i waith y Comisiynydd:

- ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru;
- dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Manylion cyswllt

- Ffôn: 0345 6033 221
 - E-bost: post@comisiynyddygyymraeg.cymru
 - Gwefan: comisiynyddygyymraeg.cymru
 - Post: Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5–7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd
CF10 1AT
-



Cyd-destun deddfwriaethol

Rhan 4 Mesur y Gymraeg

- Mae Rhan 4 Mesur y Gymraeg yn gosod fframwaith cyfreithiol er mwyn gosod dyletswydd ar rai sefydliadau i gydymffurfio ag un neu fwy o safonau mewn perthynas â'r Gymraeg. Gelwir sefydliadau sy'n ddarostyngedig i safonau yn 'bersonau perthnasol'. Ceir safonau yn y meysydd canlynol:

 - cyflenwi gwasanaethau;
 - llunio polisi;
 - gweithredu;
 - hybu;
 - cadw cofnodion.
- Mae'r dyletswyddau sy'n deillio o'r safonau'n golygu bod rhaid i bersonau perthnasol beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac y dylent hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg.
- Mae hysbysiadau cydymffurfio a roddir i bersonau perthnasol gan y Comisiynydd dan Ran 4 Mesur y Gymraeg yn pennu'r safonau penodol y mae'n ofynnol cydymffurfio â hwy, ynghyd â'r diwrnodau oddi ar bryd y mae'n ofynnol cydymffurfio â'r safonau hynny neu gydymffurfio â'r safonau hynny mewn modd penodol ('diwrnodau gosod'). Bydd copïau ar wefan y Comisiynydd o'r hysbysiadau cydymffurfio sydd mewn grym.
- Tra bydd hysbysiad cydymffurfio sy'n benodol i berson perthnasol mewn grym, bydd yn ofynnol iddo gydymffurfio â'r safonau a bennwyd ynddo.

Rhan 5 Mesur y Gymraeg

- v. Mae Rhan 5 Mesur y Gymraeg yn rhoi swyddogaethau rheoleiddiol statudol i'r Comisiynydd er mwyn sicrhau bod personau perthnasol yn cydymffurfio â'u dyletswyddau. Gall dyletswyddau gynnwys cydymffurfio â safonau'r Gymraeg (fel y nodir uchod), ac hefyd ofyniadau a osodir ar bersonau gan y Comisiynydd yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg yn sgil methiant i gydymffurfio â gofyniad perthnasol. Mae Polisi Gorfodi'r Comisiynydd yn rhoi cyngor a gwybodaeth ynghylch sut y bydd y Comisiynydd yn arfer y swyddogaethau rheoleiddiol hynny.
- vi. Y swyddogaethau rheoleiddiol sy'n deillio o Ran 5 Mesur y Gymraeg yw:
- ystyried ai i ymchwilio ai peidio os gwneir cwynion ynghylch ymddygiad personau perthnasol;
 - ymchwilio i amheuon o fethiant gan bersonau perthnasol i gydymffurfio â dyletswyddau, dyfarnu ar ymchwiliadau a llunio adroddiadau ar ymchwiliadau;
 - ystyried ai i weithredu ymhellach (drwy roi argymhellion neu gyngor) ai peidio os yw ymchwiliad yn canfod na fu methiant i gydymffurfio;
 - cymryd un o'r tri cham isod os yw ymchwiliad yn canfod y bu methiant i gydymffurfio:
 - peidio â gweithredu ymhellach;
 - gwneud un neu fwy o'r pethau a ganlyn:
 - ei gwneud yn ofynnol i'r person perthnasol baratoi cynllun gweithredu at y diben o atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd;
 - ei gwneud yn ofynnol i'r person perthnasol gymryd camau at y diben o atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd;
 - rhoi cyhoeddusrwydd i fethiant y person perthnasol i gydymffurfio â'r gofyniad perthnasol;
 - ei gwneud yn ofynnol i'r person perthnasol roi cyhoeddusrwydd i'r methiant i gydymffurfio â'r gofyniad perthnasol;
 - gosod cosb sifil ar y person perthnasol.
 - gwneud un neu fwy o'r pethau a ganlyn:
 - rhoi argymhellion i'r person perthnasol neu i unrhyw berson arall;
 - rhoi cyngor i'r person perthnasol neu i unrhyw berson arall;
 - ceisio ymrwymo mewn cytundeb setlo gyda'r person perthnasol.
 - gwneud ceisiadau i lys sirol am orchmynion llys i orfodi cydymffurfiaeth;
 - cydymffurfio â dyletswyddau sy'n deillio o apelau i Dribiwnlys y Gymraeg a cheisiadau am adolygiadau gan y Tribiwnlys;
 - llunio dogfen polisi gorfodi;
 - creu a chynnal cofrestr camau gorfodi.
- vii. Bydd y Comisiynydd yn dilyn y prosesau statudol gofynnol wrth arfer ei swyddogaethau rheoleiddiol.
- viii. Mae Polisi Gorfodi'r Comisiynydd yn cynnwys gwybodaeth lawn ynghylch y ffordd y bydd y Comisiynydd yn arfer ei swyddogaethau rheoleiddiol dan Ran 5 Mesur y Gymraeg.
-

Cynnwys

1.	Cylch gorchwyl	1
2.	Y dystiolaeth a gymerwyd yn ystod yr ymchwiliad	3
3	Cydymffurfiaeth â safon 61: Asesiad, canfyddiadau a dyfarniad	13
4	Cydymffurfiaeth â safon 87: Asesiad, canfyddiadau a dyfarniad	18
	Hysbysiad penderfynu	23

1. Cylch gorchwyl

Amheuaeth o fethiant i gydymffurfio â safonau'r Gymraeg

- 1.1 Ar 21/06/2021, 14/11/2021 ac ar 17/11/2021 derbyniais gwynion gan aelodau o'r cyhoedd. Roedd y cwynion yma yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gwynion ddilys.

Cwyn 1:

Ar 21 Mehefin 2021 derbyniodd y Comisiynydd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd yn honni bod cyhoeddiadau sain yn Saesneg yn unig ar y trên ar ei daith o Bwllheli i Aberystwyth ar 12 Mehefin 2021 (trên yn gadael goraf Pwllheli am 7:24yb). Honnai'r achwynydd hefyd bod arwyddion Saesneg yn unig yn y gorsafoedd ar hyd y daith. Mae Gweinidogion Cymru wedi cadarnhau mai system sain Train-FX oedd ar y trên dan sylw.

Cwyn 2:

Ar 14 Tachwedd 2021 derbyniodd y Comisiynydd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd ynglŷn â chyhoeddiadau sain Saesneg yn unig ar y trên o Abertawe i Gaerdydd ar 12 Tachwedd 2021. Mae Gweinidogion Cymru wedi cadarnhau mai system sain ALSTOM oedd ar y trên dan sylw.

Cwyn 3:

Ar 17 Tachwedd 2021 derbyniodd y Comisiynydd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd ynglŷn â gwasanaethau trên yn ystod ei daith o Aberystwyth i Birmingham ar 27 Hydref 2021. Mae'r achwynydd yn honni bod arwyddion electronig ar y trên ac yn yr orsaf yn Aberystwyth yn Saesneg yn unig. Honnai hefyd bod cyhoeddiadau sain ar y trên yn Saesneg yn unig. Mae Gweinidogion Cymru wedi cadarnhau mai system sain Train-FX oedd ar y trên dan sylw.

Cadarnhau cyfrifoldeb am y gwasanaeth perthnasol

- 1.2 Ysgrifennodd fy swyddogion at Weinidogion Cymru ar 5/07/2021 er mwyn cadarnhau ai Weinidogion Cymru oedd yn gyfrifol am y gwasanaeth y cwynwyd amdano yng nghwyn 1.
- 1.3 Cadarnhaodd Gweinidogion Cymru mae eu cyfrifoldeb nhw oedd y cyhoeddiadau sain a'r arwyddion dan sylw'r gŵyn gyntaf. Darparodd Gweinidogion Cymru wybodaeth am y math o drên ddefnyddiwyd ar siwrne'r achwynydd a'r math o system gwybodaeth sef TrainFX. Esboniodd Gweinidogion Cymru bod anawsterau wedi codi gyda'r cyhoeddiadau a wneir ar y trenau a hynny oherwydd yr angen i addasu'r cyhoeddiadau i gynnwys gwybodaeth yn ymwneud â'r pandemig COVID-19.
- 1.4 Ysgrifennodd fy swyddogion at Weinidogion Cymru ar 15/11/2021 er mwyn cadarnhau ai Weinidogion Cymru oedd yn gyfrifol am y gwasanaeth y cwynwyd amdano yng nghwyn 2.
- 1.5 Cadarnhaodd Gweinidogion Cymru mae eu cyfrifoldeb nhw oedd y cyhoeddiadau sain ar y trên o Abertawe i Gaerdydd ar 12/11/2021 am 15.54 dan sylw'r ail gŵyn. Yn ôl ymateb Gweinidogion Cymru y system Alstom oedd ar y trên yma.

- 1.6 Ysgrifennodd fy swyddogion at Weinidogion Cymru ar 25/11/2021 er mwyn cadarnhau ai Weinidogion Cymru oedd yn gyfrifol am y gwasanaeth y cwynwyd amdano yng ngwyn 3.
- 1.7 Cadarnhaodd Gweinidogion Cymru mae eu cyfrifoldeb nhw oedd y cyhoeddiadau sain a'r arwyddion electronig dan sylw'r trydydd cwyn.

Safonau perthnasol

- 1.8 Mae Gweinidogion Cymru dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau isod, ac roedd dan ddyletswydd i wneud hynny ar y dyddiadau sy'n berthnasol i'r cwynion:

Safon 61

Pan fyddwch yn gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd (gan gynnwys arwyddion dros dro) rhaid i unrhyw destun sy'n cael ei arddangos ar yr arwydd gael ei arddangos yn Gymraeg (pa un ai ar yr un arwydd sy'n arddangos y testun cyfatebol yn Saesneg neu ar arwydd ar wahân); ac os yw'r un testun yn cael ei arddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid ichi beidio â thrin y testun Cymraeg yn llai ffafriol na'r testun Saesneg.

Dyddiad gosod: 30/03/2016

Safon 87

Pan fyddwch yn cyhoeddi neges dros system annerch gyhoeddus, rhaid ichi wneud y cyhoeddiad hwnnw yn Gymraeg, ac os yw'r cyhoeddiad yn cael ei wneud yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid i'r cyhoeddiad gael ei wneud yn Gymraeg yn gyntaf.

Rhaid cydymffurfio â safon 87 ymhob amgylchiad, ac eithrio

- pan fo'r neges dros system annerch gyhoeddus yn cael ei chyhoeddi tu allan i Gymru.
- Cyhoeddiadau Twnnel Brys

Rhaid cydymffurfio â'r safon hon mewn perthynas â negeseuon Cymraeg drwy gyfrwng y system wybodaeth i deithwyr BTROS ar drenau gwasanaeth Cymru a'r Gororau erbyn 1 Ebrill 2025; a negeseuon argyfwng cyfrwng Cymraeg byw ar system gwybodaeth i deithwyr a chwsmeriaid (h.y. negeseuon ar drenau a mewn gorsafoedd trên) erbyn 1 Ebrill 2022.

Dyddiad gosod: 30/03/2016

Penderfyniad i ymchwilio

- 1.9 Ar sail yr uchod, penderfynais gynnal ymchwiliad dan adran 71 Mesur y Gymraeg er mwyn penderfynu a fu methiant gan Weinidogion Cymru i gydymffurfio â'r safonau a nodwyd. Rhoddais hysbysiad o'r penderfyniad i ymchwilio, ac o'r cylch gorchwyl arfaethedig, i Weinidogion Cymru ar 22/09/2021.
- 1.10 Rhoddais hysbysiad o gylich gorchwyl terfynol yr ymchwiliad i Weinidogion Cymru ar 03/11/2021. Ar 3/02/2022 fe gafodd y cylch gorchwyl ei ddiwygio i gynnwys y ddwy gŵyn fwy diweddar o fewn yr ymchwiliad. Gellir gweld y cylch gorchwyl terfynol fel atodiad i'r adroddiad hwn.

2. Y dystiolaeth a gymerwyd yn ystod yr ymchwiliad

Hysbysiad tystiolaeth

- 2.1 Ar 3/11/2021 ac ar 1/03/2022, rhoddais hysbysiad tystiolaeth i Weinidogion Cymru. Roedd yr hysbysiad tystiolaeth yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ddarparu'r dystiolaeth ganlynol:

Hysbysiad Tystiolaeth cyntaf anfonwyd ar 3/11/2021

1. A ydych chi yn derbyn ac yn cytuno â honiadau'r achwynydd bod – a) Cyhoeddiadau sain ar y daith trên o Bwllheli i Aberystwyth ar 12 Mehefin 2021 yn Saesneg yn unig? b) bod arwyddion Saesneg yn unig wedi eu gosod yn rhai o'r gorsafoedd ar hyd y daith.
2. A ydy cyhoeddiadau sain ar drenau Trafnidiaeth Cymru yn Gymraeg? Pan fo'r cyhoeddiad sain yn ddwyieithog, a ydy'r cyhoeddiad yn cael ei wneud yn Gymraeg yn gyntaf?
3. Eglurwch y trefniadau sydd mewn lle wrth baratoi cyhoeddiadau sain cyhoeddus i'w defnyddio ar drenau Trafnidiaeth Cymru.
4. Eglurwch y trefniadau sydd mewn lle i sicrhau cydymffurfiaeth â safon 87 gan gynnwys unrhyw hyfforddiant neu ganllawiau i staff. Nodwch hefyd y trefniadau sydd mewn lle i fonitro cydymffurfiaeth â safon 87 ar drenau Trafnidiaeth Cymru.
5. A ydy arwyddion y mae Gweinidogion Cymru yn gyfrifol amdanynt, sydd wedi eu gosod mewn gorsafoedd trên, yn Gymraeg yn unol â gofynion safon 61?
6. Eglurwch y trefniadau sydd mewn lle wrth ddylunio, cynhyrchu a gosod arwyddion mewn gorsafoedd trên.
7. Eglurwch y trefniadau sydd mewn lle i sicrhau cydymffurfiaeth â safon 61 yng nghyd-destun arwyddion mewn gorsafoedd trên, gan gynnwys unrhyw hyfforddiant neu ganllawiau i staff. Nodwch hefyd y trefniadau sydd mewn lle i fonitro cydymffurfiaeth â safon 61 mewn gorsafoedd trên.
8. Darparwch unrhyw wybodaeth neu dystiolaeth ychwanegol yr ydych am i ni ei ystyried wrth ddyfarnu ar eich cydymffurfiaeth â'r safonau/gofynion yng nghylch gorchwyl yr ymchwiliad.
9. Darparwch gopi o unrhyw bolisi, gweithdrefn, canllaw neu ddogfen arall yr ydych am i ni ei ystyried wrth ddyfarnu ar eich cydymffurfiaeth â'r safonau/gofynion yng nghylch gorchwyl yr ymchwiliad.

Ail hysbysiad tystiolaeth anfonwyd ar 1/3/2022.

1. A ydych chi'n derbyn a chytuno â honiadau achwynydd cwyn 2, nad oedd y cyhoeddiadau sain a wnaed ar y trê'n o Abertawe i Gaerdydd ar 12 Tachwedd 2021 yn Gymraeg?
2. Rydych wedi nodi yn eich ymateb i'r hysbysiad tystiolaeth cyntaf nad yw cyhoeddiadau sain ar gael yn Gymraeg ar drenau sydd yn gweithredu'r system sain 'ALSTOM' ac y bydd y trenau hyn yn cael eu gwaredu yn raddol erbyn chwarter olaf 2023. Dywedwch wrthym i ba raddau y mae Gweinidogion Cymru wedi ystyried rhoi trefniadau amgen mewn lle yn ystod y cyfnod hwn i sicrhau cydymffurfiaeth gyda gofynion safon 87.
3. A ydych chi'n derbyn a chytuno â honiadau achwynydd cwyn 3 bod arwyddion electronig ar y trê'n ac yn yr orsaf yn Aberystwyth yn Saesneg yn unig?
4. Cadarnhewch p'un a yw'r arwyddion electronig ar drenau a gorsafodd y mae Trafnidiaeth Cymru yn gyfrifol amdanynt, yn arddangos testun yn Gymraeg a bod y testun hwnnw yn cyfateb i'r testun Saesneg.
5. A oes achosion lle bo arwyddion electronig yn arddangos testun Saesneg yn unig ar drenau neu mewn gorsafodd trê'n? Os oes, eglurwch y rheswm am hynny.
6. Nodwch y trefniadau mewn lle wrth gynhyrchu testun sydd i'w arddangos ar arwyddion electronig ar drenau ac mewn gorsafodd trê'n. Eglurwch sut mae Gweinidogion Cymru yn sicrhau cydymffurfiaeth gyda safonau 61 wrth iddo newid neu addasu'r testun ar yr arwyddion electronig.
7. Darparwch unrhyw wybodaeth neu dystiolaeth ychwanegol yr ydych am i ni ei ystyried wrth ddyfarnu ar eich cydymffurfiaeth â safonau 61 ac 87 yng nghyd-destun y cwynion hyn.
8. Darparwch gopi o unrhyw bolisi, gweithdrefn, canllaw neu ddogfen arall yr ydych am i ni ei ystyried wrth ddyfarnu ar eich cydymffurfiaeth â 61 a 87 yng nghyd-destun y cwynion hyn.

2.2 Mewn ymateb, derbyniais dystiolaeth gan Weinidogion Cymru mewn ymateb i'r hysbysiad tystiolaeth cyntaf ar 2/12/2021 ac fy dderbyniais dystiolaeth pellach mewn ymateb i'r ail hysbysiad tystiolaeth ar 12/04/2022. Yn ogystal, darparwyd copïau o'r dogfennau canlynol:

- Polisi Iaith Gymraeg – Trafnidiaeth Cymru;
- Canllawiau ar Ddefnyddio Polisi Iaith Gymraeg Trafnidiaeth Cymru.

2.3 Ystyriais yr holl wybodaeth a gyflwynwyd mewn ymateb i'r hysbysiad tystiolaeth.

Y dystiolaeth a dderbyniwyd

- 2.4 Gofynnwyd i Weinidogion Cymru a oeddynt yn derbyn ac yn cytuno â honiadau'r achwynydd cyntaf bod cyhoeddiadau sain ar y daith trên o Bwllheli i Aberystwyth ar 12 Mehefin 2021 yn Saesneg yn unig ac a oedd arwyddion Saesneg yn unig wedi eu gosod yn rhai o'r gorsafoedd ar hyd y daith.
- 2.5 Esboniodd Gweinidogion Cymru eu bod yn derbyn ac yn cytuno â honiadau'r gŵyn bod cyhoeddiadau sain ar y taith trên o Bwllheli i Aberystwyth ar 12 Mehefin 2021 yn Saesneg yn unig. Roedd Gweinidogion Cymru hefyd yn derbyn bod posibilrwydd bod arwyddion mewn rhai gorsafoedd trên ar hyd taith yr achwynydd yn Saesneg yn unig.
- 2.6 Fe wnaeth Gweinidogion Cymru gydnabod nad yw pob cyhoeddiad sain ar drenau Trafnidiaeth Cymru yn Gymraeg. Wrth ddarparu ymateb i'r hysbysiad tystiolaeth fe esboniodd y sefydliad bod y trên ddefnyddiwyd ar y daith o Bwllheli i Aberystwyth yn defnyddio system sain TrainFX. Esboniwyd bod y system yn un uniaith a gafodd ei hetifeddu fel rhan o'r trefniadau o drosglwyddo gwasanaethau gan y darparwr blaenorol ac mae wrthi'n cael ei diweddarau.
- 2.7 Fe wnaeth Gweinidogion Cymru esbonio hefyd bod y cyhoeddiadau ar drenau yn dibynnu ar sgiliau iaith aelodau o staff gan bod staff nad ydynt yn gallu siarad Gymraeg yn gwneud cyhoeddiadau uniaith Saesneg. Esboniwyd hefyd bod staff sy'n gallu siarad Gymraeg yn cael eu hannog i ddefnyddio eu sgiliau i wneud cyhoeddiadau yn ddwyieithog.
- 2.8 Gofynnwyd i Weinidogion Cymru egluro pa drefniadau sydd ar waith wrth baratoi cyhoeddiadau sain cyhoeddus i'w defnyddio ar drenau Trafnidiaeth Cymru. Yn ôl yr ymateb mae pob cyhoeddiad sain ar gyfer systemau electronig yn cael ei recordio fel fersiynau Gymraeg a Saesneg, yn ogystal ag amrywiadau fformat ar gyfer yr holl systemau sain gwahanol sy'n cael eu defnyddio. Esboniodd Gweinidogion Cymru bod cyhoeddiadau Gymraeg a Saesneg yn cael eu huwchlwytho i systemau sy'n gallu derbyn cyhoeddiadau mewn dwy iaith. Mewn sefyllfaoedd eraill lle mai dim ond mewn un iaith y gall y system wneud cyhoeddiadau, dim ond y fersiwn Saesneg sy'n cael ei uwchlwytho. Yn ôl ymateb y sefydliad bydd y fersiwn Gymraeg yn cael ei uwchlwytho pan fydd y system yn cael ei uwchraddio i allu delio gyda cyhoeddiadau mewn mwy nag un iaith.
- 2.9 Gofynnwyd i'r sefydliad egluro y trefniadau sydd mewn lle i sicrhau cydymffurfiaeth â safon 87 gan gynnwys unrhyw hyfforddiant neu ganllawiau i staff. Gofynnwyd iddynt hefyd nodi y trefniadau sydd mewn lle i fonitro cydymffurfiaeth â safon 87 ar drenau Trafnidiaeth Cymru.
- 2.10 Esboniodd Gweinidogion Cymru bod cydymffurfiaeth â safonau'r Gymraeg wedi'i gynnwys o dan Strategaeth Iaith Gymraeg, Polisi Iaith Gymraeg a Chanllawiau i Staff ar yr iaith Gymraeg.
- 2.11 Esboniodd Gweinidogion Cymru bod y dogfennau hyn yn cael eu hadolygu yn dilyn y newidiadau llywodraethu yn 2021. Esboniodd Gweinidogion Cymru bod y dogfennau yma yn nodi ymrwymiad Trafnidiaeth Cymru i'r iaith Gymraeg, gyda'r nod o symud Trafnidiaeth Cymru a'i wasanaethau tuag at gydymffurfiaeth lawn gyda holl safonau'r Gymraeg yn y dyfodol.

- 2.12 Yn ôl yr ymateb mae'r holl systemau sain newydd ar drenau newydd sy'n dod i mewn i wasanaeth o 2022 wedi'u cwmpasu gyda'r gallu i wneud cyhoeddiadau yn y ddwy iaith o'r dyddiad cyntaf y byddant yn weithredol. Esboniodd y sefydliad bod gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu y systemau sain cyfredol sydd ddim ond yn gallu cyhoeddi mewn un iaith er mwyn eu galluogi i wneud cyhoeddiadau mewn dwy iaith. Unwaith y bydd y gwaith hwn wedi'i gwblhau, bydd cyhoeddiadau sain Cymraeg yn cael eu hychwanegu i'r system.
- 2.13 Yn ôl yr ymateb, mae'r system TrainFX sydd o dan sylw'r gŵyn gyntaf yn gwneud cyhoeddiadau yn Saesneg yn unig ar hyn o bryd gan ei fod yn system un iaith sydd wedi ei etifeddu. Esboniodd Gweinidogion Cymru bod gwaith yn mynd rhagddo ar ddatblygu'r System TrainFX i fod yn system sain ddwyieithog.
- 2.14 Esboniwyd ymhellach yn bydd y trenau dan sylw yn cael eu tynnu allan o wasanaeth yn raddol a y bydd y trenau yn cael eu disodli gan drenau newydd a fydd yn gallu gwneud cyhoeddiadau sain yn ddwyieithog o'r diwrnod cyntaf.
- 2.15 O ran cyhoeddiadau a wneir gan staff, fe esboniodd Gweinidogion Cymru bod Trafnidiaeth Cymru yn cynnig cyrsiau Cymraeg wedi'u hariannu'n llawn ar gyfer unrhyw aelod o staff sy'n dymuno dilyn hyfforddiant. Anogir aelodau staff hefyd i gwblhau cwrs ar-lein rhagarweiniol, wedi'i deilwra'n benodol i Trafnidiaeth Cymru a'r diwydiant.
- 2.16 Yn ôl y sefydliad fe anogir staff sy'n cael eu recriwtio â sgiliau Cymraeg i gyhoeddi yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae gan Trafnidiaeth Cymru aelodau staff Sicrhau Ansawdd penodedig sy'n archwilio ac yn monitro'r allbwn Gymraeg a systemau iaith ar draws y rhwydwaith. Esboniwyd bod gan Trafnidiaeth Cymru Weithgor Iaith Gymraeg, sy'n trafod gweithgaredd Cymraeg yn wythnosol ac yn asesu cynnydd i gydymffurfio â safonau'r Gymraeg.
- 2.17 Gofynnwyd i Weinidogion Cymru gadarnhau a yw'r arwyddion y maent yn gyfrifol amdanynt mewn gorsafoedd trên wedi eu gosod yn Gymraeg yn unol â gofynion safon 61. Cadarnhaodd Gweinidogion Cymru nad yw pob arwydd sydd mewn gorsafoedd trên yn Gymraeg; fodd bynnag fe esboniodd bod unrhyw arwydd newydd sydd wedi'i osod ers 2018 wedi'i godi'n ddwyieithog gyda'r Gymraeg yn debygol o gael darllen yn gyntaf. Dyma'r broses a fabwysiadwyd gan Keolis Amey o dan y fasnachfaint, ac mae Trafnidiaeth Cymru wedi dilyn yr un broses ers dod yn gyfrifol am y gwasanaeth ym mis Chwefror 2021.
- 2.18 Gofynnwyd i Weinidogion Cymru egluro y trefniadau sydd ar waith wrth ddylunio, cynhyrchu a chodi arwyddion mewn gorsafoedd trên. Yn ôl ymateb y sefydliad, mae'r holl ddyluniadau ar gyfer arwyddion newydd a rhai wedi'u diweddarau yn dilyn canllawiau brand a gyhoeddwyd gan Trafnidiaeth Cymru ym mis Chwefror 2021, pan ddaeth Trafnidiaeth Cymru yn gyfrifol am y gwasanaeth.
- 2.19 Yn ôl yr ymateb, mae'r canllawiau'n manylu ar y gofynion ar gyfer cydymffurfio â safon 61. Caiff ansawdd unrhyw arwyddion newydd ei wirio gan reolwr ansawdd Cymraeg mewnol cyn ei gyhoeddi. Mae'r tîm Sicrhau Ansawdd yn adrodd yn fewnol ar unrhyw arwyddion nad ydynt yn cydymffurfio ac fe osodir arwyddion cymeradwy yn yr orsaf berthnasol.
- 2.20 Rhoddwyd cyfle i Weinidogion Cymru egluro'r trefniadau sydd yn eu lle i sicrhau cydymffurfiaeth â safon 61 yng nghyd-destun arwyddion mewn gorsafoedd trên,

gan gynnwys unrhyw hyfforddiant neu ganllawiau ar gyfer staff. Yn ôl Gweinidogion Cymru, mae cydymffurfiaeth â safonau'r Gymraeg wedi'i gynnwys o dan y Strategaeth Iaith Gymraeg, y Polisi Iaith Gymraeg a Chanllawiau i Staff ar yr iaith Gymraeg.

- 2.21 Mae pob gorsaf ar rwydwaith Trafnidiaeth Cymru yn mynd trwy raglen adnewyddu fel rhan o amserlen aml-flwyddyn. Mae pob gorsaf sydd wedi bod yn rhan o'r rhaglen adnewyddu bellach yn cydymffurfio â gofynion safon 61. Mae'n bosib nad yw gorsafoedd nad ydynt wedi bod yn rhan o'r rhaglen eto yn cydymffurfio â gofynion safon 61.
- 2.22 Pwysleisiwyd bod holl arwyddion newydd a godir yn cydymffurfio â Safon 61. Pan fydd angen arwydd newydd, bydd cyfieithydd proffesiynol yn cyfieithu'r arwydd gan ddilyn canllawiau brand Trafnidiaeth Cymru. Mae'r canllawiau yma yn esbonio gofynion safon 61. Esbonnir ymhellach, bod ansawdd unrhyw arwyddion newydd yn cael ei wirio gan reolwr ansawdd Cymraeg mewnol cyn ei gyhoeddi.
- 2.23 Darparodd Gweinidogion Cymru gopi o'r amserlen mwyaf diweddar ar gyfer systemau sain y fflyd. Tynnodd y sefydliad sylw ar y ffaith bod y trenau gafodd eu hetifeddu sef Dosbarth 143, 170 a 175 yn dirwyn i ben yn raddol. Esboniwyd bod y system TrainFX yn cael ei ddefnyddio ar y modelau canlynol sydd wedi eu hetifeddu 150, 153, 158, 230, 769 yn cael ei ailddatblygu ar hyn o bryd. Mae'r amserlen wedi'i gohirio o chwarter cyntaf 2021 i chwarter cyntaf 2022.
- 2.24 Y rheswm dros yr oedi yma oedd heriau o ran cydymffurfio â chyfreithiau eraill a her o ran diffyg amser rhwng gorsafoedd i gyhoeddi'r negeseuon gofynnol ar Reilffordd y Cambrian. Esboniodd Gweinidogion Cymru bod gweithgor sy'n edrych ar gyfathrebu yn chwilio am ddatrysiad i'r heriau yma.
- 2.25 Darparodd Gweinidogion Cymru restr lawn o'r systemau sain ar y trenau sy'n weithredol a pha rai sydd ar gael yn gwbl ddwyieithog.
- 2.26 Wrth ymateb i'r hysbysiad tystiolaeth cyntaf fe nododd Gweinidogion Cymru y byddent yn rannu polisiau a'u strategaeth newydd Trafnidiaeth Cymru cyn gynted â phosib.
- 2.27 Ar 4/04/2022 fe ddarparodd Gweinidogion Cymru ymateb i gais am dystiolaeth ychwanegol ar ôl i'r Comisiynydd dderbyn cwynion gan ddau aelod arall o'r cyhoedd. Atodwyd polisi iaith Gymraeg Trafnidiaeth Cymru a chanllawiau i staff ar yr iaith Gymraeg i'r ymateb yma.
- 2.28 Roedd Polisi Iaith Gymraeg Trafnidiaeth Cymru yn nodi'r canlynol:

“Mae'r holl gyfathrebiadau (gweledol a llafar) gydag aelodau o'r cyhoedd yng Nghymru yn cael eu darparu yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Rhoddir blaenoriaeth i'r Gymraeg mewn unrhyw ddeunydd gweledol neu lafar a fwriedir ar gyfer aelodau o'r cyhoedd. Mewn deunydd gweledol, bydd y fersiwn Gymraeg uwchben y fersiwn Saesneg neu'r Gymraeg ar y chwith a'r Saesneg ar y dde. Mewn deunydd llafar, clywir y Gymraeg yn gyntaf a dilynir hynny gan y Saesneg.

Bydd unrhyw system neu wasanaeth digidol ar gyfer y cyhoedd a ddatblygir gan TrC yn rhoi blaenoriaeth i'r Gymraeg.”

2.29 Mae'r canllawiau i staff yn nodi'r canlynol:

“Bydd pob arwydd sy'n cael ei osod gan TrC, mewn unrhyw fannau cyhoeddus y mae TrC yn gyfrifol amdanynt, yn ddwyieithog, a bydd y fersiwn Gymraeg yn ymddangos yn gyntaf ac yna'r Saesneg. Mae hyn yn cynnwys arwyddion parhaol a dros dro.

Rhoddir blaenoriaeth i'r Gymraeg mewn unrhyw ddeunydd llafar a fwriedir ar gyfer aelodau o'r cyhoedd. Mewn deunydd llafar, clywir y Gymraeg yn gyntaf a dilynr hynny gan y Saesneg.”

- 2.30 Gofynnwyd i Weinidogion Cymru a oeddynt yn derbyn ac yn cytuno â'r honiadau yng nghwyn rhif 2, nad oedd y cyhoeddiadau sain a wnaed ar y trên o Abertawe i Gaerdydd ar 12 Tachwedd 2021 yn Gymraeg. Esboniodd Gweinidogion Cymru ei bod yn bosibl bod yr achwynydd ar wasanaeth gyda chyhoeddiadau sain uniaith Saesneg. Mae hyn oherwydd nad yw gwaith hanfodol wedi ei gwblhau ar y system gwybodaeth i deithwyr “TrainFX” hyd yma. Esboniodd Gweinidogion Cymru bod hyn yn effeithio ar eu fflyd 150, 153, 158, 230 a 769.
- 2.31 Esboniodd Gweinidogion Cymru bod yn trenau dosbarth 170 a 175 hefyd yn gweithredu ar y llwybr yma, ac ar hyn o bryd nid oes modd cyflwyno a gweithredu ateb cost-effeithiol i addasu'r system sain ar y fflyd gan y byddant yn rhoi'r gorau i'w defnyddio'n llwyr yn chwarter olaf 2023. Tynnodd Gweinidogion Cymru hefyd sylw at y ffaith bod GWR yn gweithredu ar y llwybr yma yn ddyddiol.
- 2.32 Cyfeiriodd yr hysbysiad tystiolaeth at ateb blaenorol Gweinidogion Cymru oedd yn nodi nad yw cyhoeddiadau sain ar gael yn Gymraeg ar drenau sy'n gweithredu'r system sain 'ALSTOM' ac y bydd y defnydd o'r trenau yma yn dod i ben yn llwyr erbyn chwarter olaf 2023. Gofynnwyd i'r sefydliad egluro i ba raddau y maent wedi ystyried cyflwyno trefniadau amgen yn ystod y cyfnod hwn er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion safon 87.
- 2.33 Esboniodd Gweinidogion Cymru y byddai angen rhaglen waith sylweddol a fyddai'n costio oddeutu £1M, er mwyn darparu cyhoeddiadau dwyieithog drwy'r system sain ar drenau dosbarth 170 a 175. Yn ôl yr ymateb mae'r trenau yma ar brydles ac felly mae cyfyngiad ar yr addasiadau y gall Trafnidiaeth Cymru eu gwneud. Yn yr un modd â dosbarthiadau eraill o fflyd, fe esboniodd Gweinidogion Cymru eu bod yn delio â hen systemau sy'n dyddio'n ôl i gyfnod cyn perchnogaeth Trafnidiaeth Cymru, ac nad oeddent wedi'u cynllunio i allu gwneud cyhoeddiadau dwyieithog. Nododd Gweinidogion Cymru eu bod yn rhoi'r gorau i ddefnyddio trenau 170/175 yn llwyr y flwyddyn nesaf ac yn edrych ymlaen at groesawu'r fflyd newydd sy'n eiddo i Trafnidiaeth Cymru, sy'n cynnwys systemau sydd wedi cael eu dylunio o'r gwaelod i fyny gyda gwybodaeth ddwyieithog mewn golwg. Fe esboniodd Gweinidogion Cymru bod Trafnidiaeth Cymru wedi neilltuo cyllid ac adnoddau i sicrhau bod y fflyd newydd yn cyrraedd y safonau, yn hytrach na gwario arian ar y fflyd hyn na fydd yn parhau i gael eu defnyddio.
- 2.34 Gofynnwyd i Weinidogion Cymru gadarnhau a ydynt yn derbyn ac yn cytuno â'r honiadau yng nghwyn rhif 3, bod arwyddion electronig ar y trên ac yn yr orsaf yn Aberystwyth yn uniaith Saesneg.
- 2.35 Fe esboniodd Gweinidogion Cymru wrth ymateb bod systemau gwybodaeth cwsmeriaid mewn gorsafoedd wedi cael eu rhaglennu i arddangos testun

dwyeithog ar draws yr holl orsafoedd sy'n cael eu rheoli gan Trafnidiaeth Cymru. Darparodd Gweinidogion Cymru enghreifftiau o arwyddion yng ngorsafoedd y Fenni ac Abertawe, sy'n cael eu huwchraddio fel rhan o'r gwaith Prosiectau Gorsafoedd ar draws y rhwydwaith.

- 2.36 Yn ôl ymateb Gweinidogion Cymru, mae nifer o systemau mewn gorsafoedd nad ydynt yn gallu arddangos gwybodaeth yn ddwyieithog gan fod y caledwedd yn hen (h.y. y sgrin ddigidol ffisegol) ac nad yw'n gydnaws â'r uwchraddiad i'r feddalwedd i weithredu'r system. Bydd y caledwedd yn cael ei newid yn ystod y 5 mlynedd nesaf, yn dibynnu ar y cyllid sydd ar gael gan Network Rail (sy'n berchen ar nifer helaeth o'r asedau) a chymeradwyaeth i'r achos busnes.
- 2.37 Mae Gweinidogion Cymru yn cydnabod ei bod yn bosibl nad oedd y testun a ddangosir ar systemau gwybodaeth i deithwyr yn gwbl ddwyieithog ar rai gwasanaethau, ac felly yn derbyn y gallai hyn fod wedi bod yn broblem.
- 2.38 Gofynnwyd i Weinidogion Cymru gadarnhau a yw'r arwyddion electronig ar drenau a gorsafoedd y mae Trafnidiaeth Cymru yn gyfrifol amdanynt yn arddangos testun yn Gymraeg a bod y testun Cymraeg yn cyfateb â'r testun Saesneg. Fel esboniwyd eisoes fe ddywedodd Gweinidogion Cymru bod y feddalwedd yn y gorsafoedd wedi cael ei uwchraddio i ddsbarthu gwybodaeth ddwyieithog ac fe ddarparwyd rhestr o'r gorsafoedd ble mae'r caledwedd wedi cyrraedd diwedd ei oes ac yn dangos gwybodaeth uniaith Saesneg ar hyn o bryd.
- 2.39 Dyma'r wybodaeth ddarparwyd yn yr ymateb i'r hysbysiad tystiolaeth:

Asedau CIS sy'n eiddo i Network Rail:

Pen-y-bont ar Ogwr	Yn disgwyl amserlenni gan NR – dylent gael eu disodli o fewn y 12-18 mis nesaf
Caerfyrddin	Yn disgwyl amserlenni gan NR – dylent gael eu disodli o fewn y 12-18 mis nesaf
Henffordd	Yn disgwyl amserlenni gan NR – dylent gael eu disodli o fewn y 12-18 mis nesaf
Cyffordd Llandudno	Yn disgwyl amserlenni gan NR – dylent gael eu disodli o fewn y 12-18 mis nesaf
Casnewydd	Yn disgwyl amserlenni gan NR – dylent gael eu disodli o fewn y 12-18 mis nesaf
Twnnel Hafren	Yn disgwyl amserlenni gan NR – dylent gael eu disodli o fewn y 12-18 mis nesaf
Amwythig	Yn disgwyl amserlenni gan NR – dylent gael eu disodli o fewn y 12-18 mis nesaf
Castell-nedd	Yn disgwyl amserlenni gan NR – dylent gael eu disodli o fewn y 12-18 mis nesaf
Y Rhyl	Yn disgwyl amserlenni gan NR – dylent gael eu disodli o fewn y 12-18 mis nesaf
Port Talbot	Yn disgwyl amserlenni gan NR – dylent gael eu disodli o fewn y 12-18 mis nesaf

Asedau CIS mae ODP (Keolis Amey gynt) yn berchen arnynt:

Tref y Barri	Rhan o fân waith ar Linellau Craidd y Cymoedd – i'w gwblhau erbyn mis Mehefin 2023
Ynys y Barri	Rhan o fân waith ar Linellau Craidd y Cymoedd – i'w gwblhau erbyn mis Mehefin 2023
Tregatwg	Rhan o fân waith ar Linellau Craidd y Cymoedd – i'w gwblhau erbyn mis Mehefin 2023
Cogan	Rhan o fân waith ar Linellau Craidd y Cymoedd – i'w gwblhau erbyn mis Mehefin 2023
Cwmbrân	Yn disgwyl cadarnhad o'r rhaglen waith
Llansamlet	Yn disgwyl cadarnhad o'r rhaglen waith
Machynlleth	Disodlwyd fel rhan o Flwyddyn 2
Pwllheli	Yn disgwyl cadarnhad o'r rhaglen waith
Y Bermo	Yn disgwyl cadarnhad o'r rhaglen waith
Harlech	Yn disgwyl cadarnhad o'r rhaglen waith
Tywyn	Yn disgwyl cadarnhad o'r rhaglen waith
Rhydaman	Yn disgwyl cadarnhad o'r rhaglen waith
Pantyyffynnon	Yn disgwyl cadarnhad o'r rhaglen waith
Y Fflint	Yn disgwyl cadarnhad o'r rhaglen waith
Y Rhyl	Yn disgwyl cadarnhad o'r rhaglen waith
Abergele a Phensarn	Yn disgwyl cadarnhad o'r rhaglen waith
Caergybi	Yn disgwyl cadarnhad o'r rhaglen waith
Bae Colwyn	Yn disgwyl cadarnhad o'r rhaglen waith
Conwy	Yn disgwyl cadarnhad o'r rhaglen waith
Prestatyn	Yn disgwyl cadarnhad o'r rhaglen waith

- 2.40 Gofynnwyd i'r sefydliad gadarnhau a oes enghreifftiau lle mae arwyddion electronig yn arddangos testun uniaith Saesneg ar drenau neu orsafoedd trenau ac os oes, i esbonio paham. Cadarnhaodd Gweinidogion Cymru mai dim ond testun uniaith Saesneg y gellir ei arddangos mewn rhai gorsafoedd gan fod y caledwedd CIS wedi cyrraedd diwedd ei oes.
- 2.41 Manylwyd ymhellach i esbonio mai dim ond testun uniaith Saesneg y gellir ei arddangos ar y dosbarth canlynol o drenau:
- i. System TrainFX – dosbarth 150, 153, 158, a 769. Mae gwaith yn mynd rhagddo i lwytho cynnwys Cymraeg (gan gynnwys ffeiliau sain) i fyny i'r system.
 - ii. System BTROS – dosbarth 170. (defnydd o'r trenau yma yn dod i ben chwarter olaf 2023)

iii. System ALSTOM – dosbarth 175. (defnydd o'r trenau yma yn dod i ben chwarter olaf 2023).

- 2.42 Gofynnwyd i Weinidogion Cymru nodi y trefniadau sydd ar waith ar gyfer cynhyrchu testun i'w arddangos ar arwyddion electronig ar drenau ac mewn gorsafoedd trenau.
- 2.43 Fe esboniodd Gweinidogion Cymru os bydd angen cyhoeddiad newydd neu newid i gyhoeddiad sydd eisoes yn bodoli, y bydd Trafnidiaeth Cymru yn cymryd y camau canlynol:
- Cytuno a chymeradwyo'r cyhoeddiad Saesneg newydd/diwygiedig i'w arddangos ar y sgrin a'i recordio i'w gyhoeddi.
 - Anfon y sgript at asiantaeth gyfieithu i'w chyfieithu i'r Gymraeg.
 - Artist llais i recordio sgript Cymraeg a Saesneg.
 - Bydd y ffeiliau sain a'r sgript yn cael eu hanfon at y cyflenwr PIS i'w llwytho i fyny a'u ffurfweddu i'r system.
 - Bydd y cyhoeddiad yn cael ei brofi i sicrhau nad yw'n effeithio ar brofiad y staff a'r cwsmeriaid ar y trê'n (h.y. lefel y sain, y cyhoeddiad yn cael ei chwarae ar yr amser iawn yn ystod y daith ac nad yw'n effeithio ar gyhoeddiadau deddfwriaethol eraill ar gyfer gofynion Diogelwch a Hygyrchedd).
 - Os bydd y prawf ar y trê'n yn llwyddiannus, bydd y cyhoeddiad (sain a chynnwys ar gyfer y sgrin) yn cael ei lwytho i fyny i'r fflyd.
- 2.44 Pwysleisiodd Gweinidogion Cymru mai dim ond ar systemau cyhoeddiadau sain ar gyfer cerbydau dosbarth 150, 153, 158, MK4 a fflyd newydd CAF 197 a Stadler Flirts y bydd y broses hon yn cael ei defnyddio.
- 2.45 Rhoddwyd cyfle i Weinidogion Cymru ddarparu unrhyw wybodaeth neu dystiolaeth ychwanegol i'w ystyried o ran eu cydymffurfiaeth gyda safonau 61 a 87 yng nghyd-destun y cwynion. Darparodd Gweinidogion Cymru luniau o welliannau i'r system cyfathrebu ar arwyddion sydd wedi'u hariannu gan Trafnidiaeth Cymru yng Ngorsaf Drenau'r Fenni:

Ticket office



Platform 1



Platform 2





2.46 A lluniau o'r gwelliannau wedi'u hariannu gan Trafnidiaeth Cymru yn Abertawe:

Before:



After:



3 Cydymffurfiaeth â safon 61: Aseiad, canfyddiadau a dyfarniad

Geiriad y safon

- 3.1 Dyma'r safon fel y mae'n ymddangos yn yr hysbysiad cydymffurfio a roddwyd i Weinidogion Cymru:

Safon 61

Pan fyddwch yn gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd (gan gynnwys arwyddion dros dro) rhaid i unrhyw destun sy'n cael ei arddangos ar yr arwydd gael ei arddangos yn Gymraeg (pa un ai ar yr un arwydd sy'n arddangos y testun cyfatebol yn Saesneg neu ar arwydd ar wahân); ac os yw'r un testun yn cael ei arddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid ichi beidio â thrin y testun Cymraeg yn llai ffafriol na'r testun Saesneg.

Dyddiad gosod: 30/03/2016

Dehongliadau

- 3.2 Mae paragraffau 4.13.1 i 4.13.5 yng Nghod Ymarfer Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 yn nodi y canlynol wrth drafod beth yw gofynion safonau 61 - 63:

“4.13.1. Rhaid i gorff sicrhau bod unrhyw destun ar arwyddion newydd a osodir ganddynt, neu ar arwyddion a gaiff eu hadnewyddu ganddynt, yn Gymraeg. Rhaid iddynt hefyd sicrhau na chaiff y testun Cymraeg ei drin yn llai ffafriol na'r testun Saesneg ar yr arwyddion hynny. Mae'r safonau hefyd yn gosod gofynion ynghylch cywirdeb a safle'r Gymraeg ar arwyddion.

4.13.2. Nid yw'r safonau hyn fel arfer yn berthnasol i arwydd o fewn y gweithle, lle nad yw'r arwydd hwnnw i'w weld gan bersonau y tu allan i'r corff. Dylid cyfeirio at y safonau ynghylch arwyddion a arddangosir yng ngweithle corff (safonau 141-143) ar gyfer arwyddion felly.

4.13.3. Byddai corff yn 'gosod arwydd newydd' fel arfer pan fydd yn ei roi mewn safle lle na fu arwydd o'r fath o'r blaen. Byddai corff yn 'adnewyddu arwydd' os yw'n gwneud unrhyw newid i'r arwydd hwnnw.

4.13.4. Mae'r safon hefyd yn berthnasol pan fo corff yn gosod arwydd mewn safle neu leoliad newydd.

4.13.5. Mewn perthynas ag arwyddion electronig, byddai arwydd newydd yn cael ei osod bob tro y mae testun yn ymddangos o'r newydd ar arwydd electronig.”

- 3.3 Mae Cod Ymarfer Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 yn nodi ym mharagraffau 4.13.6 i 4.13.7:

“Safon 61

- 4.13.6. *Os yw corff yn gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd (gan gynnwys arwyddion dros dro), rhaid iddo sicrhau bod unrhyw destun ar yr arwydd hwnnw yn Gymraeg. Gall corff unai arddangos y testun Cymraeg ar yr un arwydd â'r testun cyfatebol Saesneg neu ar arwydd ar wahân. Rhaid i gorff beidio â thrin y testun Cymraeg yn llai ffafriol na'r testun Saesneg ar yr arwydd dan sylw.*
- 4.13.7. *Mae'r term 'peidio â thrin y testun Cymraeg yn llai ffafriol na'r testun Saesneg' yng nghyswllt y safon hon yn cynnwys, ymysg materion eraill, peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg o ran:*
- *golwg y testun (er enghraifft mewn perthynas â lliw neu ffont unrhyw destun)*
 - *maint y testun*
 - *lleoliad ac amlygrwydd y testun mewn unrhyw fan cyhoeddus*
 - *pryd a sut y caiff y testun ei gyhoeddi, ei ddarparu neu ei arddangos*
 - *fformat cyhoeddi unrhyw destun*
 - *safon ac ansawdd y testun*
 - *eglwurder a chywirdeb y testun (er enghraifft o ran ystyr a mynegiant unrhyw destun)*
 - *cynnwys y testun (er enghraifft o ran manylder neu ansawdd y wybodaeth a gynhwysir).*

Gofynion y safon

- 3.4 Rhaid i gorff sicrhau pan yn gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd (gan gynnwys arwyddion dros dro) bod unrhyw destun sy'n cael ei arddangos ar yr arwydd yn cael ei arddangos yn Gymraeg (pa un ai ar yr un arwydd sy'n arddangos y testun cyfatebol yn Saesneg neu ar arwydd ar wahân); ac os yw'r un testun yn cael ei arddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid i gorff beidio â thrin y testun Cymraeg yn llai ffafriol na'r testun Saesneg.

Ystyried cydymffurfiaeth â'r safon

Cwyn 1

- 3.5 Cysylltodd yr achwynydd gyda mi i gwyno bod arwyddion Saesneg yn unig ar y daith o Bwllheli i Aberystwyth pan deithiodd ar y trên ar 12/06/2021. Ni wnaeth yr achwynydd ddarparu manylion ynglŷn â pha arwyddion oedd yn Saesneg yn unig.

- 3.6 Wrth ddarparu ymateb i'r hysbysiad tystiolaeth fe ddarparodd Gweinidogion Cymru wybodaeth oedd yn cadarnhau y gallai'r achwynydd fod wedi gweld arwyddion nad oedd yn Gymraeg. Fodd bynnag, fe esboniodd Gweinidogion Cymru bod unrhyw arwyddion newydd sydd wedi eu gosod ers 2018 pan gafodd y gwasanaeth ei fabwysiadu gan Keolis Amey dan fasnachfaint wedi eu gosod yn ddwyieithog gyda'r Gymraeg mewn lleoliad y byddai'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf. Fe wnaethant esbonio hefyd bod Trafnidiaeth Cymru wedi dilyn yr un broses ers dod yn gyfrifol am y gwasanaeth yn nechrau 2021.
- 3.7 Darparodd Gweinidogion Cymru wybodaeth am y broses o wirio ansawdd unrhyw arwyddion newydd er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio gyda safonau'r Gymraeg. Esboniodd hefyd bod cyfieithwyr proffesiynol yn cael eu defnyddio i gyfieithu arwyddion newydd.
- 3.8 Fe wnaeth y sefydliad hefyd ddarparu manylion am y rhaglen adnewyddu ar gyfer gorsafoedd fydd yn sicrhau bod pob arwydd yn cydymffurfio gyda safon 61 a'r canllawiau i staff ar osod arwyddion sy'n cydymffurfio gyda safonau'r Gymraeg.
- 3.9 Gan nad oedd modd adnabod yr arwyddion Saesneg y gwnaeth y achwynydd eu gweld mae'n amhosib gwybod a oedd yr arwyddion yn rhai osodwyd cyn i Weinidogion Cymru ddod yn gyfrifol am y gwasanaeth.
- 3.10 Y weithred o osod neu adnewyddu arwydd sy'n bwysig wrth ystyried cydymffurfiaeth gyda safon 61. Felly, ar y sail nad oedd modd gwybod pa bryd y cafodd yr arwyddion Saesneg yn unig a welodd yr achwynydd ar ei siwrne eu gosod, nid oes tystiolaeth ddigonol i ddyfarnu bod methiant i gydymffurfio gyda safon 61 yn achos y gŵyn yma.

Cwyn 3

- 3.11 Teithiodd yr achwynydd o Aberystwyth i Birmingham ar 27/10/2021. Honnodd yr achwynydd bod arwyddion electronig ar y trê'n ac yn yr orsaf yn Aberystwyth yn Saesneg yn unig.
- 3.12 Wrth gadarnhau cyfrifoldeb am y mater yma fe wnaeth Gweinidogion Cymru fynegi syndod bod yr achwynydd wedi gweld arwydd electronig Saesneg yng ngorsaf Aberystwyth gan bod y system electronig a ddefnyddir yn yr orsaf yn gweithredu'n ddwyieithog.
- 3.13 Wrth gadarnhau cyfrifoldeb am yr arwyddion electronig ar y trê'n, fe wnaeth Gweinidogion Cymru gydnabod mai system TrainFX sydd ar y trê'n dosbarth 158 y gwnaeth yr achwynydd deithio arno ac felly nid yw'r system yma yn gweithio yn Gymraeg. Fe esboniwyd y byddai y gwaith ar y system yma yn cael ei gwblhau yn ystod chwarter cyntaf 2022.
- 3.14 Gan nad oedd yr arwyddion electronig ar y trê'n y teithiodd yr achwynydd arni yn Gymraeg nid oedd yr arwyddion hyn yn cydymffurfio gyda safon 61.

Canfyddiadau

- 3.15 Er mwyn cydymffurfio gyda safon 61 roedd rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau bod pob arwydd sy'n cael eu gosod ganddynt, gan gynnwys arwyddion electronig, yn cael eu gosod yn Gymraeg.
- 3.16 Cysylltodd dau aelod o'r cyhoedd gyda mi i gwyno nad oedd arwyddion ar drenau a gorsafoedd trêni wedi eu gosod yn Gymraeg. Roedd un achwynydd wedi teithio ar drên o Bwllheli i Aberystwyth ar 12/06/2021 ac wedi gweld arwyddion Saesneg yn unig mewn gorsafoedd. Roedd achwynydd arall wedi teithio o Aberystwyth i Birmingham ar 27/10/2021. Cysylltodd yr achwynydd gyda mi i gwyno bod arwyddion electronig ar y trêni ac yn yr orsaf yn Aberystwyth yn Saesneg yn unig.
- 3.17 Gan nad oes modd gwybod pa bryd y gosodwyd yr arwyddion welodd yr achwynydd wrth deithio ar y trêni o Bwllheli i Aberystwyth, yna nid oes modd canfod a fu methiant i gydymffurfio gyda safon 61 yn achos y gŵyn yma. Yn yr un modd, nid oes modd adnabod yr arwyddion electronig welodd yr achwynydd ar orsaf Aberystwyth. Fodd bynnag, yn achos y siwrne drên o Aberystwyth i Birmingham ar 27/10/2021, roedd yr arwyddion electronig ar y trêni oedd yn defnyddio'r system wybodaeth TrainFX ac yn Saesneg yn unig. Gan na wnaeth Gweinidogion Cymru sicrhau bod yr arwyddion electronig oedd ar y siwrne yn Gymraeg yna nid wyf o'r farn bod Gweinidogion Cymru wedi llwyddo i gydymffurfio a safon 61 yn yr achos yma.

Dyfarniad a fu methiant i gydymffurfio â safon 61

- 3.18 Rwy'n dyfarnu fod Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 61 ar y sail bod yr arwyddion electronig oedd ar y trêni rhwng Aberystwyth a Birmingham yn Saesneg yn unig.

Gweithredu pellach

- 3.19 Mae adran 77 Mesur y Gymraeg yn caniatáu i mi weithredu ymhellach lle bu methiant
- 3.20 Yn achos fy nyfarniad fod Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 61, byddaf yn gweithredu ymhellach at y diben o atal y methiant i gydymffurfio rhag parhau.
- 3.21 Mae manylion y gweithredu pellach isod.

Safon 61: Gofyniad i baratoi cynllun gweithredu yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

Rwy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru i baratoi cynllun gweithredu drafft at y diben o sicrhau fod Gweinidogion Cymru yn cydymffurfio â gofynion safon 61 wrth ddarparu arwyddion electronig ar drenau sydd o dan eu cyfrifoldeb.

Rhaid i'r cynllun gweithredu drafft gynnwys y wybodaeth ganlynol:

- Disgrifiad o bob un o'r camau y bydd Gweinidogion Cymru y neu cymryd i sicrhau bod arwyddion electronig ar drenau yn cydymffurfio â safon 61
- Pwy fydd yn gyfrifol ac yn atebol am gymryd pob un o'r camau (gan gynnwys unrhyw gerrig milltir)
- Yr adnoddau (eg cyllid / staff) sydd eu hangen i gyflawni pob un o'r camau.

Dylai'r cynllun gweithredu gynnwys camau i sicrhau—

- bod Gweinidogion Cymru yn cynnal awdit o'r holl systemau arwyddion electronig ar drenau sydd ganddo i asesu a ydynt yn cydymffurfio â gofynion safon 61,
- bod Gweinidogion Cymru yn cydymffurfio yn llawn gyda gofynion safon 61 wrth ddarparu arwyddion electronig ar drenau sydd o dan eu cyfrifoldeb o fewn **9 mis** o ddyddiad cymeradwyo'r cynllun gweithredu.

Amserlen:

Rhaid i Weinidogion Cymru lunio drafft cyntaf o'r cynllun gweithredu a rhoi'r drafft hwnnw i'r Comisiynydd o fewn **3 mis** o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.

Safon 61: Argymhelliad yn unol ag adran 76 Mesur y Gymraeg

Rwy'n argymhell bod Gweinidogion Cymru yn cynnal awdit o'r holl arwyddion yn y gorsafoedd trên rhwng Pwllheli ac Aberystwyth er mwyn gwirio cydymffurfiaeth gyda safon 61.

4 Cydymffurfiaeth â safon 87: Aseiad, canfyddiadau a dyfarniad

Geiriad y safon

- 4.1 Dyma'r safon fel y mae'n ymddangos yn yr hysbysiad cydymffurfio a roddwyd i Weinidogion Cymru:

Safon 87

Pan fyddwch yn cyhoeddi neges dros system annerch gyhoeddus, rhaid ichi wneud y cyhoeddiad hwnnw yn Gymraeg, ac os yw'r cyhoeddiad yn cael ei wneud yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid i'r cyhoeddiad gael ei wneud yn Gymraeg yn gyntaf.

Rhaid cydymffurfio â safon 87 ymhob amgylchiad, ac eithrio

- pan fo'r neges dros system annerch gyhoeddus yn cael ei chyhoeddi tu allan i Gymru.
- Cyhoeddiadau Twnnel Brys

Rhaid cydymffurfio â'r safon hon mewn perthynas â negeseuon Cymraeg drwy gyfrwng y system wybodaeth i deithwyr BTROS ar drenau gwasanaeth Cymru a'r Gororau erbyn 1 Ebrill 2025; a negeseuon argyfwng cyfrwng Cymraeg byw ar system gwybodaeth i deithwyr a chwsmeriaid (h.y. negeseuon ar drenau a mewn gorsafoedd trên) erbyn 1 Ebrill 2022.

Dyddiad gosod: 30/03/2016

Dehongliadau

- 4.2 Ni cheir unrhyw ddehongliad pellach o safon 87 yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015.
- 4.3 Mae Cod Ymarfer Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 yn nodi ym mharagraffau 4.21.1 i 4.21.4 wrth drafod beth yw gofynion safon 87:
- 4.21.1 *Rhaid i gorff sicrhau bod pob neges a wneir dros system annerch gyhoeddus yn cael ei gwneud yn Gymraeg, ac yn Gymraeg yn gyntaf os caiff ei gwneud yn Saesneg hefyd.*
- 4.21.2 *Mae'r term yn cynnwys unrhyw gyhoeddiad a wneir at sylw'r cyhoedd drwy ddefnydd offer sain gan y corff.*
- 4.21.3 *Mae unrhyw gyhoeddiadau a wneir at sylw'r gweithle yn ddarostyngedig i safon 144. Gall rheiny gynnwys, er enghraifft, pan fo neges yn cael ei chyhoeddi at sylw'r cyhoedd a'r gweithle e.e. neges sy'n cyfarwyddo pawb yn yr adeilad i adael mewn achos o argyfwng. Mewn achos felly, bydd y ddwy safon yn berthnasol.*
- 4.21.4 *Gallai enghreifftiau o gyhoeddiadau fyddai'n berthnasol i'r safon hon gynnwys: - cyhoeddiadau mewn liffiau yn adeiladau'r corff sy'n agored i'r cyhoedd*

- cyhoeddiadau ar gerbydau (fel lori casglu sbwriel sy'n rhybuddio bod y cerbyd yn mynd yn ôl)

neges dros seinydd mewn digwyddiad neu gyfarfod cyhoeddus (e.e. neges sy'n nodi bod perfformiad ar fin dechrau), neu

negeseuon dros uchel seinydd o fewn adeiladau'r corff (e.e. neges sy'n cyfarwyddo aelod o'r cyhoedd i ddod at y dderbynfa).

Gofynion y safon

- 4.4 Mae safon 87 yn ei gwneud hi'n ofynnol i gorff sicrhau bod pob neges a wneir dros system annerch gyhoeddus yn cael ei wneud yn Gymraeg, ac yn Gymraeg yn gyntaf os caiff ei wneud yn Saesneg hefyd.
- 4.5 Mae eithriadau perthnasol wedi eu cynnwys yn hysbysiad cydymffurfio Gweinidogion Cymru.

Ystyried cydymffurfiaeth â'r safon

- 4.6 Roedd elfennau o gwynion y tri achwynydd yn sôn am y siom nad oedd cyhoeddiadau sain yn Gymraeg.

Cwyn 1

- 4.7 Cysylltodd yr achwynydd yn achos cwyn rhif 1 gyda mi i esbonio bod y cyhoeddiadau sain ar y trên o Bwllheli i Aberystwyth ar 12 Mehefin 2021 (trên yn gadael Pwllheli am 7.24yb).
- 4.8 Pan gysylltwyd â Gweinidogion Cymru i ofyn ai nhw oedd yn gyfrifol am y mater yma fe gadarnhaodd y sefydliad mai eu cyfrifoldeb nhw oedd y cyhoeddiadau sain. Fe wnaethant hefyd gadarnhau mai y system wybodaeth TrainFX oedd yn cael ei ddefnyddio ar y trên dan sylw.
- 4.9 Fe esboniodd Gweinidogion Cymru bod anawsterau wedi codi gyda'r cyhoeddiadau ar drenau oherwydd yr angen i addasu'r cyhoeddiadau i gynnwys gwybodaeth yn ymwneud â'r pandemig.
- 4.10 Pan roddwyd cyfle i Weinidogion Cymru roi mwy o wybodaeth am y cyhoeddiadau sain yma fe esboniodd y sefydliad eu bod yn derbyn honiadau'r gŵyn bod cyhoeddiadau sain ar y siwrne yn Saesneg yn unig.
- 4.11 Esboniodd y sefydliad bod y system sain TrainFX yn un uniaith a gafodd ei hetifeddu a'u bod wrthi'n cael ei diweddarau.
- 4.12 Wrth ddarparu ymateb i'r hysbysiad tystiolaeth fe esboniodd Gweinidogion Cymru y bydd y trenau sy'n defnyddio'r system TrainFX yn cael eu tynnu allan o wasanaeth yn raddol.

Cwyn 2

- 4.11 Cwynodd achwynydd cwyn rhif 2 bod y cyhoeddiadau sain yn Saesneg yn unig ar y trê'n o Abertawe i Gaerdydd ar 12/11/2021. Yn ôl Gweinidogion Cymru y system sain ALSTOM oedd ar y trê'n dan sylw. Esboniodd Gweinidogion Cymru y bydd y trenau hyn yn cael eu gwaredu yn raddol erbyn chwarter olaf 2023 ac y byddai gwneud trefniadau amgen yn y cyfamser yn gostus iawn.

Cwyn 3

- 4.12 Yn achos cwyn rhif 3, fe deithiodd yr achwynydd o Aberystwyth i Birmingham ar 27 Hydref 2021. Yn ôl yr achwynydd roedd y cyhoeddiadau sain ar y trê'n yn Saesneg yn unig. Esboniodd Gweinidogion Cymru eu bod yn bosibl bod hyn yn wir gan nad oedd y gwaith hanfodol ar y system TrainFX (yr un system â chwyn 1) wedi ei gwblhau.

Gwybodaeth Gyffredinol

- 4.13 Yn ôl y wybodaeth dderbyniwyd am y cyhoeddiadau, maent wedi eu recordio yn Gymraeg ac yn Saesneg ac fe fydd y fersiynau Cymraeg yn cal eu huwchlwytho pan fydd y systemau sain yn cael ei uwchraddio i allu delio gyda cyhoeddiadau mewn mwy nag un iaith.
- 4.14 Cadarnhaodd Gweinidogion Cymru bod yr holl systemau sain newydd sy'n dod yn weithredol yn 2022 yn gallu gwneud cyhoeddiadau yn ddwyieithog o'r cychwyn cyntaf. Esboniwyd hefyd bod gwaith yn cael ei wneud i ddatblygu system sain cyfredol er mwyn eu galluogi i wneud cyhoeddiadau mewn dwy iaith.
- 4.15 Fe esboniodd Gweinidogion Cymru mai'r systemau TrainFX ac ALSTOM oedd yn cael eu defnyddio ar y trenau y teithiodd yr achwynwyr arnynt. Nid yw'r un o'r systemau sain yma wedi eu cynnwys yn yr eithriad i'r safon ac nid yw'n ymddangos eu bod yn negeseuon argyfwng byw a oedd wedi eu heithrio o gydymffurfio gyda'r safon hyd at 1 Ebrill 2022.
- 4.16 Pan ofynnwyd i'r sefydliad egluro unrhyw drefniadau sydd mewn lle o ran cydymffurfiaeth gyda safon 87 fe ddarparodd Gweinidogion Cymru gopi o ddogfennau allweddol gan gynnwys y polisi iaith Gymraeg sy'n nodi'r canlynol:
- “Mae'r holl gyfathrebiadau (gweledol a llafar) gydag aelodau o'r cyhoedd yng Nghymru yn cael eu darparu yn Gymraeg ac yn Saesneg.”*
- 4.17 Mae'r polisi iaith yn cyfeirio at ddogfennau cysylltiedig gan gynnwys dogfen o'r enw 'Hyfforddiant Iaith Gymraeg'. Ni ddarparwyd copi o'r ddogfen yma.
- 4.18 Fe esboniodd Gweinidogion Cymru bod y cyhoeddiadau byw ar drenau yn dibynnu ar sgiliau iaith aelodau o staff sy'n gwneud y cyhoeddiadau. Nid oes eithriad o fewn y safon sy'n cymryd i ystyriaeth sgiliau iaith aelodau o staff.
- 4.19 Fe esboniodd y sefydliad eu bod yn annog staff sy'n gallu siarad Cymraeg i wneud cyhoeddiadau yn y ddwy iaith. Fe esboniwyd hefyd bod unrhyw aelod o staff sy'n

dymuno cael cyrsiau iaith yn cael cyrsiau sydd wedi eu hariannu'n llawn. Roedd y *Canllawiau ar Ddefnyddio Polisi Iaith Gymraeg Trafnidiaeth Cymru* yn nodi'r canlynol:

“15.1 Bydd TrC yn darparu cyfleoedd hyfforddiant mewn swydd i alluogi staff i ddatblygu eu sgiliau iaith yn Gymraeg a Saesneg.

15.2 Anogir staff i ddatblygu eu sgiliau iaith ymhellach a byddant yn cael eu rhyddhau o'u gwaith, os bydd angen, i ddysgu Cymraeg neu i wella eu sgiliau. Bydd TrC yn darparu cyllid ar gyfer unrhyw hyfforddiant perthnasol.”

- 4.20 Ni wnaeth y sefydliad esbonio a oedd unrhyw ofynion ieithyddol neu ofyniad i ddysgu'r Gymraeg wedi eu cynnwys wrth recriwtio staff sy'n gwneud cyhoeddiadau ar y trenau.
- 4.21 Er bod y trefniadau gan y sefydliad i wella'r systemau sain, mae'r hyn ddywed yr achwynwyr a'r sefydliad yn cyfateb a gellir dod i gasgliad nad oedd y cyhoeddiadau sain a wnaed ar y trenau y teithiodd yr achwynwyr arnynt yn cydymffurfio gyda gofynion safon 87.
- 4.22 Tra fy mod yn derbyn bod Gweinidogion Cymru wedi mabwysiadu systemau sain sy'n hen a'u bod yn cymryd camau tuag at gydymffurfiaeth, nid yw'r sefyllfa fel ag y profodd yr achwynwyr yn cydymffurfio gyda safon 87.
- 4.23 Er mwyn cydymffurfio gyda safon 87 mae'n rhaid i bob cyhoeddiad sain ar drenau a gorsafoedd sydd o dan gyfrifoldeb Gweinidogion Cymru gael eu gwneud yn Gymraeg yn gyntaf. Mae hynny yn cynnwys cyhoeddiadau llafar byw a wneir gan y staff ar y trenau ac yn y gorsafoedd a chyhoeddiadau wedi eu recordio o flaen llaw.

Canfyddiadau

- 4.24 Mae safon 87 yn gofyn i Weinidogion Cymru sicrhau bod cyhoeddiadau dros systemau annerch cyhoeddus yn cael eu gwneud yn Gymraeg a bod y Gymraeg i'w chlywed gyntaf.
- 4.25 Cysylltodd tri achwynydd gyda mi i fynegi siom ar ôl iddynt glywed cyhoeddiadau sain Saesneg yn unig ar drenau ar dair siwrne gwahanol. Wrth ddarparu gwybodaeth am y systemau sain oedd yn cael eu defnyddio, fe gadarnhaodd Gweinidogion Cymru nad oedd y cyhoeddiadau sain ar y trenau yma yn cael eu gwneud yn Gymraeg.
- 4.26 Gan nad oedd y cyhoeddiadau sain a wnaed dros y systemau annerch cyhoeddus ar y trenau yma wedi eu gwneud yn Gymraeg, rwyf yn dyfarnu fod Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 87 yn yr achos yma.

Dyfarniad a fu methiant i gydymffurfio â safon 87

- 4.27 Rwy'n dyfarnu fod Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 87 yn yr achos yma ar y sail nad oedd y cyhoeddiadau sain a wnaed ar y trenau y teithiodd y tri achwynydd arnynt wedi eu gwneud yn Gymraeg.

Gweithredu pellach

- 4.28 Mae adran 77 Mesur y Gymraeg yn caniatáu i mi weithredu ymhellach lle bu methiant.
- 4.29 Yn achos fy nyfarniad fod Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 87, byddaf yn gweithredu ymhellach at y diben o atal y methiant i gydymffurfio rhag parhau.
- 4.30 Mae manylion y gweithredu pellach isod.

Safon 87: Gofyniad i baratoi cynllun gweithredu yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

Rwy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru i baratoi cynllun gweithredu drafft at y diben o sicrhau fod Gweinidogion Cymru yn cydymffurfio â gofynion safon 87 wrth wneud cyhoeddiadau sain ar drenau sydd o dan eu cyfrifoldeb.

Rhaid i'r cynllun gweithredu drafft gynnwys y wybodaeth ganlynol:

- Disgrifiad o bob un o'r camau y bydd Gweinidogion Cymru y neu cymryd i sicrhau bod cyhoeddiadau sain ar drenau yn cydymffurfio â safon 61
- Pwy fydd yn gyfrifol ac yn atebol am gymryd pob un o'r camau (gan gynnwys unrhyw gerrig milltir)
- Yr adnoddau (eg cyllid / staff / hyfforddiant) sydd eu hangen i gyflawni pob un o'r camau.

Dylai'r cynllun gweithredu gynnwys camau i sicrhau—

- bod Gweinidogion Cymru yn cynnal awdit o'r holl systemau sain ar drenau sydd ganddo i asesu a ydynt yn cydymffurfio â gofynion safon 87,
- bod Gweinidogion Cymru yn cydymffurfio yn llawn gyda gofynion safon 87 wrth wneud cyhoeddiadau sain ar drenau sydd o dan eu cyfrifoldeb o fewn **18 mis** o ddyddiad cymeradwyo'r cynllun gweithredu.

Amserlen:

Rhaid i Weinidogion Cymru lunio drafft cyntaf o'r cynllun gweithredu a rhoi'r drafft hwnnw i'r Comisiynydd o fewn **3 mis** o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Hysbysiad penderfynu

At: Gweinidogion Cymru

Rhif achos: CS063

Dyddiad: 04/10/2022

Dyfarniad

Yn sgil derbyn cwyn gan aelod o'r cyhoedd, cynhaliais ymchwiliad dan adran 71 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 er mwyn dyfarnu a fu methiant gan Weinidogion Cymru i gydymffurfio ag un neu fwy o safonau'r Gymraeg y mae dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.

Mae'r safonau oedd yn berthnasol i'r ymchwiliad fel a ganlyn:

Safon 61

Pan fyddwch yn gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd (gan gynnwys arwyddion dros dro) rhaid i unrhyw destun sy'n cael ei arddangos ar yr arwydd gael ei arddangos yn Gymraeg (pa un ai ar yr un arwydd sy'n arddangos y testun cyfatebol yn Saesneg neu ar arwydd ar wahân); ac os yw'r un testun yn cael ei arddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid ichi beidio â thrin y testun Cymraeg yn llai ffafriol na'r testun Saesneg.

Dyddiad gosod: 30/03/2016

Dyfarnaf fod Gweinidogion Cymru wedi methu cydymffurfio â safon 61.

Sail fy nyfarniad yw bod yr arwyddion electronig oedd ar y trên rhwng Aberystwyth a Birmingham yn Saesneg yn unig.

Safon 87

Pan fyddwch yn cyhoeddi neges dros system annerch gyhoeddus, rhaid ichi wneud y cyhoeddiad hwnnw yn Gymraeg, ac os yw'r cyhoeddiad yn cael ei wneud yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid i'r cyhoeddiad gael ei wneud yn Gymraeg yn gyntaf.

Rhaid cydymffurfio â safon 87 ymhob amgylchiad, ac eithrio

- pan fo'r neges dros system annerch gyhoeddus yn cael ei chyhoeddi tu allan i Gymru.
- Cyhoeddiadau Twnnel Brys

Rhaid cydymffurfio â'r safon hon mewn perthynas â negeseuon Cymraeg drwy gyfrwng y system wybodaeth i deithwyr BTROS ar drenau gwasanaeth Cymru a'r Gororau erbyn 1 Ebrill 2025; a negeseuon argyfwng cyfrwng Cymraeg byw ar system gwybodaeth i deithwyr a chwsmeriaid (h.y. negeseuon ar drenau a mewn gorsafoedd trên) erbyn 1 Ebrill 2022.

Dyddiad gosod: 30/03/2016

Dyfnaf fod Gweinidogion Cymru wedi methu cydymffurfio â safon 87.

Sail fy nyfarniad yw nad oedd y cyhoeddiadau sain a wnaed ar y trenau y teithiodd y tri achwynydd arnynt wedi eu gwneud yn Gymraeg..

Gweithredu pellach

Yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg rwyf wedi penderfynu gweithredu ymhellach [at y diben o atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd.

Mae manylion y gweithredu pellach isod.

Safon 61: Gofyniad i baratoi cynllun gweithredu yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

Rwy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru i baratoi cynllun gweithredu drafft at y diben o sicrhau fod Gweinidogion Cymru yn cydymffurfio â gofynion safon 61 wrth ddarparu arwyddion electronig ar drenau sydd o dan eu cyfrifoldeb.

Rhaid i'r cynllun gweithredu drafft gynnwys y wybodaeth ganlynol:

- Disgrifiad o bob un o'r camau y bydd Gweinidogion Cymru y neu cymryd i sicrhau bod arwyddion electronig ar drenau yn cydymffurfio â safon 61
- Pwy fydd yn gyfrifol ac yn atebol am gymryd pob un o'r camau (gan gynnwys unrhyw gerrig milltir)
- Yr adnoddau (eg cyllid / staff) sydd eu hangen i gyflawni pob un o'r camau.

Dylai'r cynllun gweithredu gynnwys camau i sicrhau—

- bod Gweinidogion Cymru yn cynnal awdit o'r holl systemau arwyddion electronig ar drenau sydd ganddo i asesu a ydynt yn cydymffurfio â gofynion safon 61,
- bod Gweinidogion Cymru yn cydymffurfio yn llawn gyda gofynion safon 61 wrth ddarparu arwyddion electronig ar drenau sydd o dan eu cyfrifoldeb o fewn **9 mis** o ddyddiad cymeradwyo'r cynllun gweithredu.

Amserlen:

Rhaid i Weinidogion Cymru lunio drafft cyntaf o'r cynllun gweithredu a rhoi'r drafft hwnnw i'r Comisiynydd o fewn **3 mis** o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.

Safon 61: Argymhelliad yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

Rwy'n argymhell bod Gweinidogion Cymru yn cynnal awdit o'r holl arwyddion yn y gorsafoedd trên rhwng Pwllheli ac Aberystwyth er mwyn gwirio cydymffurfiaeth gyda safon 61.

Safon 87: Gofyniad i baratoi cynllun gweithredu yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

Rwy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru i baratoi cynllun gweithredu drafft at y diben o sicrhau fod Gweinidogion Cymru yn cydymffurfio â gofynion safon 87 wrth wneud cyhoeddiadau sain ar drenau sydd o dan eu cyfrifoldeb.

Rhaid i'r cynllun gweithredu drafft gynnwys y wybodaeth ganlynol:

- Disgrifiad o bob un o'r camau y bydd Gweinidogion Cymru y neu cymryd i sicrhau bod cyhoeddiadau sain ar drenau yn cydymffurfio â safon 61
- Pwy fydd yn gyfrifol ac yn atebol am gymryd pob un o'r camau (gan gynnwys unrhyw gerrig milltir)
- Yr adnoddau (eg cyllid / staff / hyfforddiant) sydd eu hangen i gyflawni pob un o'r camau.

Dylai'r cynllun gweithredu gynnwys camau i sicrhau—

- bod Gweinidogion Cymru yn cynnal awdit o'r holl systemau sain ar drenau sydd ganddo i asesu a ydynt yn cydymffurfio â gofynion safon 87,
- bod Gweinidogion Cymru yn cydymffurfio yn llawn gyda gofynion safon 87 wrth wrth wneud cyhoeddiadau sain ar drenau sydd o dan eu cyfrifoldeb o fewn **18 mis** o ddyddiad cymeradwyo'r cynllun gweithredu.

Amserlen:

Rhaid i Weinidogion Cymru lunio drafft cyntaf o'r cynllun gweithredu a rhoi'r drafft hwnnw i'r Comisiynydd o fewn **3 mis** o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.

Disgwylir i unrhyw Gynllun Gweithredu gael ei baratoi a'i gwblhau yn unol â'r canllawiau sydd wedi eu gosod allan yn yr Adroddiad Ymchwiliad, ac yn unol â'r canllawiau cyffredinol sydd yn y Ddogfen Gyngor atodol hefyd.

Hawl i apelio i Dribiwnlys y Gymraeg

Pan fo'r Comisiynydd wedi dyfarnu na fu methiant i gydymffurfio â safon, gall yr achwynydd apelio i Dribiwnlys y Gymraeg. Pan fo'r Comisiynydd yn wedi dyfarnu bod person wedi methu â chydymffurfio â gofyniad perthnasol, gall y person hwnnw apelio i Dribiwnlys y Gymraeg. Yn ogystal, pan fo'r Comisiynydd wedi penderfynu cymryd camau gorfodi mewn cysylltiad â methiant, gall Gweinidogion Cymru apelio i Dribiwnlys y Gymraeg ar y sail fod y camau gorfodi'n afresymol neu'n anghymesur. Ceir rhagor o wybodaeth am y broses yn y daflen amgaeedig, ac ar wefan y Tribiwnlys.

Canlyniadau peidio cydymffurfio â gofyniad mewn hysbysiad penderfynu

Os yw Gweinidogion Cymru yn methu â chydymffurfio ag unrhyw ofyniad yn yr hysbysiad penderfynu hwn, caiff y Comisiynodd wneud cais i lys sirol am orchymyn yn ei gwneud yn ofynnol iddynt gydymffurfio.